



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Trafodaeth Polisi i wella gwasanaethau bws lleol yng Nghymru

## Crynodeb

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal trafodaeth polisi gyda chwmnïau bysiau, awdurdodau lleol a chymdeithasau teithwyr yng Nghymru, i ddatblygu cynigion ynghylch y ffordd orau i ddatblygu gwasanaethau bysiau lleol fel rhan o system trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r amcanion rydym yn ceisio'u cyflawni.

---

## Y broses

Ers 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant bysiau i nodi problemau'r sector bysiau; y gwasanaethau y mae teithwyr yn eu disgwyl a sut y gall awdurdodau lleol gefnogi gwasanaethau bysiau'n well fel rhan o'r rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus integredig rydym am ei weld.


Fel rhan o'r drafodaeth, cynhaliwyd Uwchgynhadledd Bysiau Cymru 2017 yn Wrecsam ar 23 Ionawr i ystyried y pynciau hyn ymhellach ac i ddatblygu cynllun ar gyfer taclo'r heriau hyn – yn y tymor byr, canolig a hir. Dros y deuddeng mis nesaf, byddwn yn para i drafod â'r prif rhanddeiliaid fel rhan o raglen o weithdai fydd yn ystyried rhai o'r prif themâu godwyd yn yr Uwchgynhadledd.

Yr amcan yw datblygu atebion all datrys rhai o'r problemau hyn yn y tymor byr a chanolig.

Yn y tymor hwy, bydd angen gofyn hefyd ai'n fframwaith ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau bysiau lleol yw'r un iawn ar gyfer pobl Cymru. Felly o fis Mawrth 2017 ac fel rhan o'r drafodaeth â rhanddeiliaid, byddwn yn ymgynghori ar rai o'r cynigion ar gyfer diwygio'r gyfraith yn y dyfodol er mwyn inni allu darparu system trafniadaeth gyhoeddus fydd yn gwireddu ein hamcanion cenedlaethol ehangach.

---

## Amcan ein cynigion yw ....



**Cynyddu** nifer y bobl o bob oed sy'n defnyddio'r bws bob dydd i deithio i'r gwaith, addysg, i gael at wasanaethau iechyd neu i hamddena.


**Darparu** mwy o wasanaethau bysiau lleol hygyrch o ansawdd da ar gyfer teithwyr fel rhan o system trafndiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru fydd yn gymysgedd o wasanaethau lleol rheolaidd a rhai sy'n ymateb i'r galw, ynghyd â gwasanaethau bysiau cyflym pell i ategu'r trenau.



**Creu'r amodau** i sefydlu system docynnu genedlaethol a rhanbarthol integredig er mwyn i bobl allu teithio'n hwylus gan ddefnyddio mwy nag un dull teithio.


**Galluogi cwmnïau** bysiau i gyfrannu at ddatblygu a chynnal systemau trafndiaeth gyhoeddus metro'r de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain.





**Rhoi borgen deg i deithwyr, staff, cwmnïau bysiau a'r sector gyhoeddus – rhwydwaith bysiau ariannol iach a chynaliadwy gyda threfn ariannu gyhoeddus sefydlog yn sail iddo, sy'n rhoi gwerth ein harian i ni ac a fydd yn diogelu nodweddion gorau'r sector bysiau masnachol.**

**Cyfrannu** at ddiogelu lles cenedlaethau i ddod trwy helpu ardaloedd lle mae ansawdd yr aer yn wael a chefnogi economi gynaliadwy a llewyrchus



**Mae angen newid oherwydd ...**

**Rydym am wydroi'r crebachu a fu ar y rhwydwaith bysiau lleol a'r cwmp yn nifer y teithiau a deithir yng Nghymru.** Gwelwyd cwmp o ryw 46% yn nifer y gwasanaethau bysiau cofrestredig yng Nghymru, o 1,943 ym Mawrth 2005 i 1,058 ym Mawrth 2015. Mae nifer y teithiau gan deithwyr ar fysiau wedi cwmpo 19% rhwng 2008 a 2015. Collwyd miliwn arall o deithiau yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2016.

**Rydym am gryfhau'r rhwydwaith bysiau lleol, a lleihau'r perygl i gwmnïau yn y sector bysiau fynd i'r wal.** Yn 2016, aeth tri chwmni bysiau yng Nghymru i'r wal gan effeithio ar fwy na 500 o swyddi ac amharu'n fawr ar wasanaethau bysiau eu hardaloedd. Rydym am i awdurdodau lleol gael yr hawl i lofnodi cytundebau ariannu tymor hir.

**Rydym am weld mwy o wasanaethau bysiau lleol rheolaidd yng Nghymru, eu gweld yn rhedeg yn amlach a gweld eu hansawdd yn codi.** Mae mwyafrif llethol y gwasanaethau bysiau rheolaidd lleol yn rhedeg yn y de-ddwyrain, ac yno y ceir y bysiau mwyaf newydd. Rydym am weld ansawdd gwasanaethau yn gwella ym mhob rhan o Gymru.

**Rydym am weld llai o amrywiaeth a chymhlethdod ym mhrisiau a threfniadau tocynnau.** Gall tocyn undydd amrywio yn ei bris o £3 i £6 ac ychydig sy'n cynnig tocynnau aml-gwmni neu docynnau bws a thrên yn un. Rydym am weithio gyda'r diwydiant ac awdurdodau lleol i greu system brisiau a thocynnu sy'n rhoi borgen deg i deithwyr, cwmnïau bysiau a'r trethdalwr.

### ***Rydym am wella trefniadau gweinyddu'r cynllun tocynnau rhatach gorfodol.***

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am dalu cwmnïau lleol am deithiau'r rheini sydd â phas teithio am ddim. Mae'r hyn a delir am y teithiau hyn yn amrywio'n fawr rhwng cwmnïau a depots mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Un o'n prif amcanion yw symleiddio'r drefn ar gyfer ein Hymrwmiadau Gwasanaethau Cyhoeddus.

### **Bydd y drafodaeth yn datblygu cynigion fydd yn:**

- ✓ Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael dweud sut y caiff gwasanaethau bysiau lleol eu darparu fel rhan o'u cynllun trafndiaeth lleol
- ✓ Gadael i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol dalu i gefnogi cwmnïau bysiau
- ✓ Meithrin perthynas dda rhwng cwmnïau bysiau lleol ac awdurdodau lleol trwy sicrhau bod yna ymgynghori cyn bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd Traffig ar gyfer dechrau, newid neu ddileu llwybrau bysiau.
- ✓ Symleiddio'r drefn ar gyfer datblygu a chynnal rhwydwaith TrawsCymru\* a ddaw o dan reolaeth Llywodraeth Cymru. Cwmnïau bysiau o dan fasnachfaint fydd yn rhedeg y gwasanaethau. Bydd hynny'n caniatáu mwy o gynllunio a buddsoddi tymor hir.
- ✓ Pennu'r ansawdd y bydd disgwyl i gwmnïau bysiau lleol eu bodloni yng Nghymru, ynghyd ag arweiniad clir ynghylch arosfannau, cysgodfannau a gwybodaeth i'r cyhoedd.
- ✓ Dileu'r Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd statudol yng Nghymru a chreu Cynlluniau Partneriaethau Gwella os na fydd cwmni lleol yn gallu bodloni safonau ansawdd yr arweiniad statudol.
- ✓ Galluogi awdurdodau lleol i sefydlu masnachfaint bysiau yn eu hardal a sefydlu'u cwmni bysiau os oes angen.
- ✓ Ei gwneud yn haws i deithwyr gael at wasanaethau gwybodaeth dibynadwy iddynt allu cynllunio teithiau ar drafndiaeth gyhoeddus a rhannu data.
- ✓ Ei gwneud yn haws sefydlu cynlluniau tocynnau rhanbarthol a chenedlaethol i ddiwallu anghenion teithwyr ar fysiau a threnau.

### **Ac rydym am osgoi**

- ✓ Colli'r manteision a'r nodweddion positif y mae cwmnïau bysiau masnachol wedi'u darparu yn rhannau o Gymru.
  - ✓ Cyfyngu ar allu'r sector bysiau yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth i ddyfeisio atebion newydd i rai o'n problemau trafndiaeth.
-